

PRIFYSGOL ABERTAWE

Statudau

1. Cyffredinol
2. Diffiniadau
3. Swyddogion
4. Archwilio
5. Y Cyngor
6. Staff Academaidd

Hanes Cymeradwyo

Fersiwn 1 - Cymeradwywyd gan y Cyfrin Gyngor ar 13 Mehefin 2007 a daeth i rym ar 10 Medi 2007.

Fersiwn 2 - Ymgorfforwyd diwygiadau i Statud 5.1.1 a fersiwn newydd o Statud 6 - Cymeradwywyd gan y Cyfrin Gyngor a daeth i rym o 23 Awst 2011.

Fersiwn 3 - Ymgorfforwyd diwygiadau i Statud 5.1.1xi - Cymeradwywyd gan y Cyfrin Gyngor a daeth i rym o 19 Medi 2012.

1. Cyffredinol

1.1. Y Statudau hyn yw Statudau Prifysgol Abertawe, yn unol ag erthyglau 19 ac 20 o Siarter Atodol 2007 y Brifysgol.

1.2 Mae'r Statudau hyn yn disodli'r Statudau a oedd mewn grym cyn Siarter Atodol 2007 (y cyfeirir atynt o hyn allan fel "yr hen Statudau")

1.3 Ni fydd unrhyw beth a gynhwysir yn y Statudau hyn yn effeithio ar unrhyw beth a wnaed o dan yr hen Statudau nes y caiff ei diddymu, ei thynnu'n ôl, ei diwygio neu ei haddasu.

2. Diffiniadau

Yn y Statudau hyn

Ystyr "**Siarter**" yw'r rhan o Siarter 1920 nas diddymwyd, y rhan o Siarter Atodol 1959 nas diddymwyd a Siarter Atodol 2007.

Ystyr "**Prifysgol**" yw Prifysgol Abertawe.

Ystyr "**Cyngor**" yw Cyngor Prifysgol Abertawe.

Ystyr "**Senedd**" yw Senedd Prifysgol Abertawe.

Ystyr "**Cyfadrannau**" yw Cyfadrannau Prifysgol Abertawe.

Ystyr "**Llys**" yw Llys Prifysgol Abertawe.

Ystyr "**Statudau**" yw Statudau Prifysgol Abertawe.

Ystyr "**Hen Statudau**" yw Statudau Prifysgol Cymru Abertawe a oedd mewn grym cyn Siarter Atodol 2007.

Ystyr "**Ordinadau**" yw Ordinadau Prifysgol Abertawe.

Ystyr "**Rheoliadau**" yw Rheoliadau Prifysgol Abertawe.

Yn y Statudau hyn bydd geiriau sy'n awgrymu'r gwrywaidd yn cynnwys y fenywaidd ac i'r gwrthwyneb, ac oni bai fod y cyd-destun yn awgrymu dehongliad arall, bydd geiriau unigol yn cynnwys y lluosog a bydd geiriau lluosog yn cynnwys yr unigol.

Dehonglir cyfeiriad at unrhyw statud, deddfiad, gorchymyn, offeryn statudol neu offeryn tebyg fel cyfeiriad at y statud, y deddfiad, y gorchymyn, neu'r offeryn fel y'i diwygiwyd gan unrhyw statud, deddfiad, gorchymyn neu offeryn dilynol, neu fel y'i cynhwyswyd mewn unrhyw ailddeddfiad dilynol.

3. Swyddogion

3.1 Bydd y bobl ganlynol yn Swyddogion Prifysgol Abertawe, sef y Canghellor, y Dirprwy Gangellorion, y Trysorydd, yr Is-ganghellor, Y Dirprwy Is-ganghellor neu'r Dirprwy Is-gangellorion a deiliaid y fath swyddi eraill y gall y Cyngor eu pennu o bryd i'w gilydd.

4. Archwilio

4.1 Bydd y Cyngor yn penodi archwiliwr neu archwilwyr am y fath gyfnod y gall y Cyngor ei bennu, yn amodol ar adolygiad blynyddol, i archwilio'r datganiad ariannol o incwm a gwariant a chyfrifon eraill y Brifysgol.

4.2 Ni fydd person yn gymwys i'w benodi fel archwiliwr oni bai ei fod yn aelod o gorff o gyfrifyddion a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig ac yn unol â Deddfau Cwmnïau 1985-1989.

4.3 Ni fydd unrhyw un o'r bobl ganlynol yn gymwys i'w benodi fel archwiliwr:

(i) swyddog yn y Brifysgol neu ddeiliad unrhyw swydd gyflogedig yn y Brifysgol;

(ii) aelod o Lys neu Gyngor y Brifysgol;

(iii) person sy'n bartner busnes neu a gyflogir gan unrhyw berson a ddisgrifir yn (i) neu (ii) uchod.

4.4 Os daw swydd yr archwiliwr yn wag oherwydd ymddiswyddo neu am unrhyw reswm arall cyn diwedd cyfnod y deiliad yn y swydd bydd y Cyngor yn ddi-oed yn penodi archwiliwr neu archwilwyr i lenwi'r swydd am weddill y cyfnod y penodwyd yr archwiliwr blaenorol amdano.

4.5 Bydd y Cyngor yn sefydlu Pwyllgor Archwilio a bydd yn pennu ei gylch gorchwyl a'i gyfansoddiad.

5. Y Cyngor

5.1 Aelodaeth y Cyngor

5.1.1. Bydd y bobl ganlynol yn aelodau'r Cyngor:

(i) Y Canghellor.

(ii) Y ddau Ddirprwy Ganghellor, y dynodir un ohonynt gan y Cyngor i fod yn Gadeirydd y Cyngor.

(iii) Y Trysorydd.

(iv) Yr Is-Ganghellor.

(v) Y fath rai o blith y Dirprwy Is-ganghellorion y gellir eu penodi ar argymhelliad yr Is-ganghellor, heb fod yn fwy na thri, am hyd eu cyfnod yn y swydd honno.

(vi) Chwe aelod o'r Llys i'w penodi gan y Llys.

(vii) Pedwar aelod o'r staff academaidd i'w penodi gan y Senedd ac o blith aelodau'r Senedd y bydd dau ohonynt yn aelodau staff nad ydynt yn athrawon ac y bydd gan ddau ohonynt statws Athro.

(viii) Chwe aelod a gyfetholwyd gan y Cyngor.

(ix) Dau aelod staff a gyflogir gan Brifysgol Abertawe i'w henwebu drwy benderfyniad mwyafriif o ysgrifenyddion canghennau'r Undebau Llafur y cydnabyddir bod ganddynt hawliau cynrychioli o fewn Prifysgol Abertawe.

(x) Llywydd Undeb y Myfyrwyr.

(xi) Swyddog Chwaraeon Undeb y Myfyrwyr.

5.1.2. Ni ddylai'r bobl a benodir dan (i), (ii), (iii), (vi) ac (viii) ddal unrhyw swydd gyflogedig ym Mhrifysgol Abertawe na bod wedi'u cofrestru fel myfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe.

5.1.3. Caiff y bobl a benodir dan (vi) eu hethol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Llys.

5.1.4. Ac eithrio'r Is-ganghellor, bydd aelodaeth o'r Cyngor yn para am gyfnod o bedair blynedd ac eithrio, yn ei gyfarfod cyntaf, bydd gan y Cyngor awdurdod i benodi aelodau am gyfnod ansafonol er mwyn sefydlu system lle bydd cyfran o'r aelodau'n ymddeol bob blwyddyn. Yn achos aelodau a benodir, bydd aelodaeth o'r Cyngor yn amodol ar y ffaith eu bod yn parhau i fod yn aelodau'r corff penodi neu'n parhau i gynrychioli'r corff penodi, heblaw am aelodau a benodwyd gan y Llys y bydd eu haelodaeth o'r Cyngor yn parhau tan y cyfle nesaf i'r Llys wneud penodiad yn ei

Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Bydd yr holl aelodau sy'n ymddeol a etholwyd, a benodwyd neu a gyfetholwyd yn gymwys i gael eu haillethol, eu hailbenodi neu eu cyfethol eto ond, heblaw am swydd y Canghellor, bydd aelodaeth o'r Cyngor fel arfer yn gyfyngedig i ddau dymor olynol.

5.1.5. Gall unrhyw aelod o'r Cyngor ymddiswyddo o'r Cyngor unrhyw bryd drwy ysgrifennu at yr Ysgrifennydd i'r Cyngor.

5.1.6. Bydd pymtheg aelod o'r Cyngor yn ffurfio cworwm.

5.2 Pwerau a Dyletswyddau'r Cyngor

5.2.1. Oni bai fod y Siarter a'r Statudau wedi dirprwyo'n bendant fel arall, bydd gan y Cyngor yr awdurdod i arfer yr holl bwerau a roddir i'r Brifysgol drwy'r Siarter, y Statudau a'r Ordinhadau, ac i roi'r rhain ar waith.

5.2.2. Caiff y pwerau a'r dyletswyddau canlynol eu cyflawni'n uniongyrchol gan y Cyngor ac ni ellir eu dirprwyo:

- (i) Gweithredu fel corff llywodraethu'r Brifysgol.
- (ii) Yn unol ag Erthygl 18 o'r Siarter, ychwanegu at Siarter y Brifysgol neu ei diwygio.
- (iii) Yn unol ag Erthygl 19 o'r Siarter, gwneud, diwygio, ychwanegu at Statudau'r Brifysgol neu eu diddymu.
- (iv) Gwneud, diwygio, ychwanegu at Ordinhadau'r Brifysgol neu eu diddymu ar yr amod na fydd y fath Ordinhadau'n atgas i ddarpariaethau'r Siarter neu'r Statudau.
- (v) Penodi'r Canghellor, y Dirprwy Gangellorion a'r Trysorydd.
- (vi) Llywodraethu a rheoleiddio cyllid, cyfrifon, buddsoddiadau, eiddo, busnes a materion y Brifysgol ac i'r diben hwnnw penodi Bancwyr ac unrhyw swyddogion neu asiantaethau gweinyddol eraill y gall ymddangos ei bod yn gyfleus eu penodi.
- (vii) Cymeradwyo benthycu arian ar ran y Brifysgol ac i'r diben hwnnw, os yw'r Cyngor o'r farn ei bod yn briodol, morgaisio neu gyfnewid neu arwystlo holl eiddo'r Brifysgol neu unrhyw ran ohono, boed yn eiddo tirol neu'n eiddo personol, a rhoi'r fath sicrwydd arall, boed ar eiddo tirol neu ar eiddo personol neu fel arall, y gall y Cyngor feddwl ei bod yn briodol.
- (viii) Gweithredu fel ymddiriedolwyr ar gyfer unrhyw eiddo, cymynrodd, gwaddol, becwêdd neu rodd at ddiben cefnogi amcanion y Brifysgol.
- (ix) Cymeradwyo gwerthu, prynu, cyfnewid, prydlesu a derbyn prydlesi eiddo tirol a phersonol ar ran y Brifysgol.
- (x) Cymeradwyo'r datganiadau ariannol a gyflwynir i'r Llys er gwybodaeth ac i'w cyhoeddi'n ehangach.

- (xi) Penodi'r archwiliwr neu'r archwilwyr i archwilio'r datganiadau ariannol a chyfrifon eraill y Brifysgol.
 - (xii) Sicrhau bod yr ystad yn ddigonol i gyflawni amcanion y Brifysgol a chymeradwyo unrhyw strategaeth ystadau.
 - (xiii) Cymeradwyo Cynlluniau Strategol y Brifysgol.
 - (xiv) Monitro perfformiad a chynnydd y Brifysgol a mynnu y gweithredir i fynd i'r afael â'r materion a nodir drwy'r fath fonitro.
 - (xv) Gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch materion polisi strategol sy'n ymwneud â staffio a chyflogaeth.
 - (xvi) Sefydlu Pwyllgor Dethol i swydd yr Is-ganghellor, penodi'r Is-ganghellor a phenodi'r Dirprwy Is-gangellorion, Penaethiaid Ysgolion a Phenaethiaid Adrannau Unedol.
 - (xvii) Adolygu, cyfeirio yn ôl, rheoli, diwygio neu wahardd unrhyw un o weithredoedd y Senedd a rhoi cyfarwyddiadau i'r Senedd.
 - (xviii) Dewis Sêl ac Arfau i Brifysgol Abertawe a goruchwylio cadwraeth y Sêl a'i defnydd.
 - (xix) Pennu strwythur trefniadol cyffredinol y Brifysgol.
 - (xx) Cymeradwyo cyfansoddiad Undeb y Myfyrwyr ac, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol o fewn rheswm, sicrhau bod Undeb y Myfyrwyr yn gweithredu mewn modd teg a democrataidd a'i fod yn atebol am ei gyllid.
- 5.2.3 Yn amodol ar Statud 5.2.2, bydd gan y Cyngor yr awdurdod i ddirprwyo pwerau a dyletswyddau:
- (i) I'r Is-ganghellor, fel prif weithredwr, at ddiben rheolaeth academaidd, gorfforaethol ariannol, ystadau a phersonél y Brifysgol;
 - (ii) i'r Senedd fel y'i pennir gan Ordinhadau;
 - (iii) i'r pwyllgorau a sefydlwyd gan y Cyngor, fel y'i pennir gan Ordinhadau a chylch gorchwyl y pwyllgorau hynny;
 - (iv) i Swyddogion y Brifysgol, fel y'i pennir gan Ordinhadau.

6. Parthed Disgyblu, Diswyddo, Diarddel o Swyddi nad ydynt yn Barhaol a Chwynion Staff

1. Cyflwyniad

Mae'r Statud hon yn ymwneud â disgyblu, diswyddo a diarddel o swyddi nad ydynt yn barhaol a chwynion staff. Oni nodir i'r gwrthwyneb, mae'r Statud hon yn gymwys i bob aelod staff.

2. Egwyddorion Dehongli a Chymhwyso Cyffredinol

2.1 Bydd y Statud hon ac unrhyw reolau ac ordinhadau a wneir o dani yn cael ei chymhwyso a'i dehongli ym mhob achos gan roi sylw i'r egwyddorion arweiniol canlynol:

(i) sicrhau bod gan aelodau staff academiaidd ryddid o fewn y gyfraith i herio a phrofi doethineb cyffredin a chynnig syniadau newydd a barn ddadleuol neu amhoblogaidd, heb beri'r risg o golli eu swyddi neu unrhyw freintiau a all fod ganddynt yn y Brifysgol;

(ii) galluogi'r Brifysgol i ddarparu addysg, hyrwyddo dysgu ac ymgymryd ag ymchwil mewn modd effeithlon ac economaidd; a

(iii) gweithredu egwyddorion cyfiawnder a thegwch.

2.2. Tybir y bydd unrhyw gyfeiriad yn y Statud hon at ddarpariaeth mewn Deddf Seneddol yn gyfeiriad at y ddarpariaeth honno fel y gellid bod wedi'i diwygio neu ei disodli o bryd i'w gilydd.

2.3 At ddibenion y Statud hon, bydd gan y termau canlynol yr ystyron canlynol:

(i) bydd yr un ystyr i "diswyddo" ag sydd yn adran 95 Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996;

(ii) bydd yr un ystyr i "diswyddo drwy ddileu swydd" ag sydd yn adran 139 Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996;

(iii) *"Staff Academiaidd" yw'r aelodau staff hynny fel y'u diffinnir yn y Darpariaethau Cyffredinol sy'n Gymwys i'r Holl Ordinhadau.*

2.4 Ni fydd y pŵer i ddiswyddo staff drwy ddileu swyddi, a'r ordinhadau a bennir mewn perthynas â'r fath bŵer, o dan y Statud hon, yn gymwys i'r aelodau staff hynny a ddiffinnir yn isadrannau (3) i (6) adran 204 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (staff academiaidd a benodwyd cyn 20 Tachwedd 1987 a nas dyrchafwyd ar ôl y dyddiad hwnnw) a fydd at y diben hwn yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r fath bwerau, os oes rhai, a oedd yn gymwys iddynt cyn cyflwyno'r Statud a wnaed gan Gomisiynwyr y Brifysgol wrth arfer eu pwerau o dan adrannau 203 a 204 Deddf Diwygio Addysg 1988.

3. Disgyblu

3.1 Gall yr Is-ganghellor, neu berson dynodedig arall neu bersonau dynodedig eraill, ddisgyblu unrhyw aelod o'r staff.

3.2 Lle bo aelod staff wedi cael ei ddisgyblu yn unol â Chymal 3(1) caiff yr aelod staff hwnnw apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i berson dynodedig.

4. Diswyddo

4.1 Gall yr Is-ganghellor, neu berson dynodedig arall neu bersonau dynodedig eraill, ddiswyddo unrhyw aelod o'r staff gyda rhybudd neu'n ddirybudd, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r achos.

4.2 Lle bo aelod staff wedi cael ei ddiswyddo yn unol â Chymal 4(1) caiff yr aelod staff hwnnw apelio yn erbyn y penderfyniad i'w ddiswyddo i berson dynodedig.

5. Cwynion

5.1 Caiff unrhyw aelod staff ofyn am unioni unrhyw gwynion sy'n ymwneud â chyflogaeth yr aelod staff hwnnw.

5.2 Os yw'r aelod staff yn anfodlon ar benderfyniad ynghylch cwyn, caiff yr aelod staff hwnnw apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i berson dynodedig.

6. Ordinhadau

Bydd y Cyngor o bryd i'w gilydd (yn dilyn ymgynghori ag undebau llafur) yn gwneud ac yn diwygio ordinhadau sy'n dynodi personau dynodedig i'w penodi a gweithdrefnau i'w dilyn wrth arfer y pwerau a'r dyletswyddau a gynhwysir yn y Statud hon, a bydd y fath ordinhadau yn ymdrin â'r canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:-

6.1 Dileu swyddi;

6.2 Peidio ag adnewyddu contractau cyfnod penodedig a dileu swydd yn sgil terfynu ffrydiau ariannu penodol cyfnod penodedig

6.3 Ymddygiad a rhesymau cadarn eraill dros ddiswyddo;

6.4 Gallu a pherfformiad;

6.5 Anallu oherwydd rhesymau sy'n ymwneud ag iechyd;

6.6 Terfynu penodiadau cyfnod prawf;